Adroddiad ar

Ysgol Gymunedol Trimsaran

Heol Waunyclun
Trimsaran
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA17 4BE

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Trimsaran

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Trimsaran |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 197 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 143 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 40.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 14.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 34.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/11/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/02/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

# Crynodeb

Mae arweinwyr cydwybodol yn sefydlu ethos a diwylliant cadarnhaol i'r ysgol, sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion yn bwrpasol. Mae'r weledigaeth synhwyrol hon, sy'n cefnogi arferion gwella'r ysgol, yn cyfrannu at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion. Mae gwaith arweinwyr i gryfhau systemau gwella'r ysgol, trwy werthusiadau rheolaidd a manwl, yn arwain at brosesau effeithiol i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Mae arweinwyr yn adolygu perfformiad staff yn ddiwyd ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith lwyddiannus ar les a dysgu disgyblion. Mae llywodraethwyr yn herio a chefnogi arweinwyr yn ddoeth, ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu trwy gylch monitro ystyrlon. Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu cynhwysol a diddorol, sy'n cynnwys adnoddau cyfoethog ymhob agwedd o'r ddarpariaeth, er mwyn cefnogi disgyblion i ymgolli yn eu dysgu.

Ar y cyfan, mae sesiynau addysgu yn symud ar gyflymdra sy'n addas i'r dysgu. Er hyn, nid yw ansawdd addysgu'r athrawon a'r her maent yn ei rhoi i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. At ei gilydd, mae'r adborth mae athrawon yn ei ddarparu i ddisgyblion i wella'u dysgu yn briodol.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm difyr, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu holl fedrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae medrau rhifedd a digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n fwriadus ac maent yn siaradwyr hyderus yn Saesneg. Er hyn, nid yw eu medrau llafar Cymraeg ac ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith yn datblygu'n ddigon llwyddiannus.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau yn synhwyrol, sy'n datblygu eu teyrngarwch a pharch at bobl eraill yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol yn werthfawr, sy'n cefnogi eu hymwybyddiaeth a'u gwerthfawrogiad diwylliannol yn gadarn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Darparu her i'r holl ddisgyblion trwy wella'r addysgu a rhoi adborth cyson ac effeithiol

A2. Parhau i wella agweddau disgyblion at siarad Cymraeg

A3. Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae arweinwyr yn ymgymryd â'u rolau yn ddiwyd a chydwybodol ac yn creu diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r weledigaeth ddeallus hon yn arwain at ethos cadarnhaol ac amgylchedd dysgu cynhwysol, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar weithdrefnau i wella'r ysgol dros amser.

Mae arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth uchelgeisiol i staff a disgyblion yn glir. Maent yn nodi gwelliannau i feithrin lles a datblygu dysgu'r disgyblion yn bwrpasol fel man cychwyn i'r cyfeiriad strategol. Caiff y weledigaeth ei chefnogi gan amgylchedd dysgu cefnogol, sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn fuddiol. O ganlyniad, o fannau cychwyn amrywiol, mae cynnydd llawer o ddisgyblion yn eu medrau ar draws yr ysgol yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn groesawgar i'w gilydd, i'r staff ac ymwelwyr. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus am eu profiadau dysgu, yn enwedig yn Saesneg, ac maent yn ymddwyn yn dda.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi a herio arweinyddiaeth yr ysgol yn effeithiol. Ar y cyd â'r staff, maent yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr amgylchedd, y ddarpariaeth a'r dysgu yn effeithiol. Mae'r llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addas o fewn y cylch monitro rheolaidd sy'n dwyn athrawon i gyfrif am effaith eu gwaith yn synhwyrol.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn drylwyr. Maent yn gweithredu prosesau gwella manwl a rheolaidd sy'n arwain at welliannau cynaledig dros amser. Er enghraifft, mae datblygiadau diweddar yn cynnwys gwella a datblygu medrau digidol disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn cefnogi datblygiad staff yn gelfydd. Maent yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff fynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu gwella, fel gweithredu cwricwlwm sy'n cefnogi'r disgyblion i ymholi'n chwilfrydig a gwella presenoldeb disgyblion, yn llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn grefftus i ddiwallu anghenion disgyblion. Maent yn ystyried lles a baich gwaith staff yn ofalus ac yn datblygu perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni, ysgolion lleol, asiantaethau cefnogi a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau fel sesiynau coginio i ddisgyblion a chyfleoedd iddynt baratoi bocsys bwyd a nwyddau i'w teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r gweithgareddau bywyd go iawn hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith ac anghenion eu hardal leol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu'n dda ar fywyd yr ysgol, eu cynefin a'r byd ehangach.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn, sy'n cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais. Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Maent yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt yn synhwyrol i sicrhau bod trefniadau pontio rhwng gwahanol gyfnodau o fewn a thu hwnt i'r ysgol, ynghyd â darparwyr eraill, yn galluogi disgyblion ag ADY i fanteisio ar gefnogaeth yn effeithiol.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae'r perthnasoedd gwaith a'r parch rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion a llawer ohonynt yn gwrando'n ofalus ar athrawon ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd. Maent yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymdrechu'n dda i gyfrannu at drafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, mae agweddau llawer o ddisgyblion at siarad Cymraeg yn anghyson ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, nid ydynt yn datblygu eu geirfa a phatrymau brawddeg yn ddigon effeithiol er mwyn cyfathrebu'n gynyddol ddigymell mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth fynegi eu barn a thrafod eu teimladau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fwy hyderus a huawdl wrth gyfathrebu yn Saesneg.

Mae athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cymell disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn ystyriol. Ar y cyfan, mae'r sesiynau addysgu yn symud y dysgu ymlaen ar gyflymdra addas ac mae'r gweithgareddau diddorol yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymholi ac ymchwilio'n bwrpasol fel rhan bwysig o'r broses ddysgu. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn nisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol athrawon, yn enwedig wrth ddarparu her i ddisgyblion gyflawni hyd orau eu gallu. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol. Mae hyn yn

golygu nad yw disgyblion yn gwybod beth sydd angen ei wella na sut i gyflawni hyn yn ddigon effeithiol er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Lle mae'r addysgu'n gryf, mae holi medrus yr athrawon yn dyfnhau dysgu disgyblion yn fwriadus. Mae trafodaethau heriol yn helpu disgyblion i adalw gwybodaeth flaenorol yn bwrpasol i greu cysylltiadau pwrpasol yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol, fel ymchwilio am ffeithiau diddorol tra'n cymharu nodweddion gwahanol micro-lysiau. Maent yn ddarllenwyr da sy'n ymgysylltu'n synhwyrol â thestunau ac yn darllen â mynegiant synhwyrol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn creu amgylchedd dysgu difyr ac ardaloedd ysgogol, sy'n cynnwys adnoddau buddiol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu at ddibenion amrywiol mewn ystod dda o ffurfiau yn briodol. Yn gyffredinol, maent yn dechrau gwella'u gwaith trwy ei olygu a'i ailgyflwyno'n addas. Fodd bynnag, nid yw safon gwaith gorffenedig disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddigon cadarn.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gydweithio a rhannu syniadau i ddatblygu eu medrau mathemateg, yn aml mewn dulliau ymarferol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn caffael medrau rhifedd effeithiol ac yn eu defnyddio'n bwrpasol mewn gweithgareddau dilys. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau digidol effeithiol trwy reoli teganau rhaglenadwy a defnyddio rhaglenni dysgu addysgol yn annibynnol. Mae'r disgyblion hŷn yn dilyn cyfarwyddiadau'n fanwl tra'n datblygu eu medrau codio wrth raglennu i reoli goleuadau, er enghraifft. Mae hyn yn arfogi disgyblion i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd amrywiol, fel cyflwyniadau digidol ar fywydau dyfeiswyr enwog a'r gwahaniaethau rhwng siapiau 3D.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ehangder a chydbwysedd da ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae cynllunio gweithgareddau difyr yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog sydd, ar y cyfan, yn adeiladu'n systematig ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn ychwanegol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach yn llwyddiannus. Er enghraifft, ar daith addysgol, maent yn ymchwilio i hanes Castell Cydweli a'i gymharu â rhai o gestyll eraill Cymru, ac yn astudio themâu rhyngwladol yn ystyrlon trwy ddathlu gwahanol ddiwylliannau.

Mae athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth gadarn ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion gan feithrin tosturi, myfyrdod a pharch yn werthfawr. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad creadigol disgyblion yn dda; er enghraifft, mae artistiaid lleol yn cydweithio ag athrawon i gyfoethogi medrau creadigol disgyblion yn llwyddiannus wrth greu gemwaith a chrochenwaith.

Caiff ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei hyrwyddo'n effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn deall manteision tyfu a gofalu am gynnyrch yn rhandiroedd yr ysgol fel agwedd bwysig o fyw'n gynaliadwy. Yn ogystal, maent yn gwerthfawrogi gwahanol gredoau, ac yn dangos goddefgarwch ac ystyriaeth deg at safbwyntiau pobl eraill yn fuddiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2025